Cofnodion cyfarfod 9 Mehefin 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John	
Iwan Huws	Cynog Prys	
Iestyn Harris	Mei Gwilym	
Nerys John		
Emyr Gareth		
Dafydd Huws	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol. Cafwyd Ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Llŷr Evans, Casi Roberts a Elliw Williams.	
1.1	Doedd dim mwy i adrodd ar y Cynllun Cyfaill. Roedd rhai pobl wedi derbyn Bocsys o nwyddau oddi wrth y Llywodraeth ond nid oeddynt eu hangen. Yn ol y deall mae un cwmni gyda'r contract ac yn anfon y nwyddau at bobl sydd yn ynysu ond nid ydynt wedi newid ei ffordd o weithio o gysylltu a'r pobl i sicrhau eu bod eu hangen.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Dywedodd y Cynghorydd Sir bod Grŵp Cynefin ag Adra wedi bod yn disgwyl i wirfoddolwyr a cynghorwyr i wneud gwaith gefnogi. Roedd wedi derbyn sawl galwad oherwydd iechyd meddwl. Hefyd roedd wedi derbyn galwadau oherwydd "Social Distancing", pobol yn dod i ail gartrefi a chartrefi gwyliau; roedd yn eu hanfon at yr heddlu ond roedd yr heddlu gyda 4000 o gwynion a dim adnoddau i ddelio â'r materion. Roedd consyrn ynglŷn a Llwybr Bodrandeg yn parhau gyda mwy na un cwyn wedi dod i'w sylw. Roedd un oherwydd bod ci wedi ei ollwng ar berson oedd dim yn trespasu. Roedd cyfarfod rhanbarthol gyda Ken Skates wedi bod drwy ddefnyddio technoleg oedd yn ddefnyddiol. Fel aelod o'r cabinet mae yn delio gyda Track & Trace Gwynedd sydd yn ddistaw ar hyn o bryd ond fel bydd cyfyngiadau yn codi bydd yn bwysig wedyn. Mae Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu eu gwaith. Mae torriad gwair wedi ei wneud ond nid yw'r gweddillion wedi eu codi. Roedd y Cyngor Cymuned o dan yr argraff nad oedd unrhyw doriad yn mynd i ddigwydd oherwydd bod ebost wedi ei dderbyn yn datgan hyn. Nid oed unrhyw ohebiaeth wed ei dderbyn yn dweud bod y toriadau yn dechrau yn eu hol. Y Clerc i gysylltu a'r Swyddog.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R**	

	ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynwyd adroddiadau ariannol mis Ebrill a Mai. Derbyniwyd hwy fel rhai cywir. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod taliad cyntaf y presept wedi ei wneud a bod sefyllfa'r banc yn iach iawn. Nid yw sieciau ar gyfer Clwb y Felin na'r Guides wedi eu cyflwyno i'r banc.	
4.2	Dywedodd y Swyddog Ariannol nad oedd archwiliad mewnol eleni yn mynd i fod yr unfath, bydd yr archwiliad yn cael ei wneud drwy archwilio pethau ar y wefan ac anfon dogfennau drwy'r we.	
4.3	Trafodwyd Llythyr Tarian. Fe benderfynwyd i beidio a chefnogi.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Mai 2020.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
	C20/0370/20/DT – 32 Ger y Nant, Y Felinheli LL56 4PF – Cais ar gyfer codi estyniad unllawr uwchben modurdy bresennol ynghyd ac estyniad cen unllawr. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.2	C20/0428/20/DT – 2 Tan y Maes, Y Felinheli LL56 4UQ – estyniad i greu llawr cyntaf ynghyd a gosod cyfarpar trin carthffosiaeth preifat o fewn yr ardd. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Cyflwynwyd anfonebau Meical Huws am y gwaith i'r meinciau, cadarnhawyd y Cyngor i symyd ymlaen i'w talu.	
7.2	Cafwyd bris oddi wrth Meical Huws am waith cynnal i'r Fainc ar ben steps. Y pris byddai yr un a'r gwaith ar gyfer y meinciau eraill. Cadarnhaodd y Cyngor i symud ymlaen a'r gwaith.	**DW**
7.3	Mae'r gwaith ar Ffordd Lan y Môr yn mynd yn ei flaen gyda gwaith ger y Garddfon yn parhau. Bydd y Cynghorydd Cynnog Prys a'r Cynghorydd Dan Williams yn gael cyfarfod Zoom a'r Rheolwr y Prosiect yr wythnos nesaf.	
7.4	Gwaith ar y wal yn parhau a gobeithir ei chwblhau o fewn tri mis. Roedd y Cyngor yn gyffredinol yn meddwl bod y gwaith cerrig yn dda ac yn daclus.	
7.5	Cafwyd drafodaeth ynglŷn a chynnwys y Cyngorydd Nerys John neu Elliw Williams yn y cyfarfod cyswllt a'r Rheolwr Prosiect. Hyn yn mynd i gael ei sortio yr wythnos hon.	
7.6	Cafwyd drafodaeth ynglŷn a seremoni agor y gwaith yn Mis Medi. Roedd dipyn o syniadau i law, yn cynnwys cael englyn oddiwrth Osian Owen ar gyfer y gwaith (Y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths am wneud ymholiadau ag Osian), roedd plant yr Ysgol Gynradd hefyd wedi gwneud gwaith i'w gynnwys o fewn y prosiect. Hyefyd ystyriwyd rhan i Jac Powell.	**GG**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Roedd y Cynghorydd Nerys John wedi anfon adroddiad a'r Lwybr 19 y Gymuned felly er mwyn sicrhau nad yw yn mynd yn anghof mae cofnod o'r adroddiad mae wedi eu hatodi gyda'r cofnodion hyn. Y Clerc i sicrhau bod y Swyddog priodol yn delio a'r mater.	

9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Cafwyd adroddiad bod angladd diweddar wedi claddu ym mhen y rhes yn lle dilyn y drefn arferol. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Trefnydd Angladdau.	**CLERC**
10.0	**PROSIECTAU**	
	Nid oedd Y Cynghorydd Elliw Williams yn bresennol ac felly nid oeddynt yn gallu cael diweddariad ynglŷn a chais am arian cymunedol oddi wrth contractwyr gwaith Lan y Môr.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Dan Williams bod y Neuadd yn parhau ar gau. Roedd angen trefnu i newid y tapiau yn y toiedau i sicrhau nad oedd y tapiau yn cael eu gadael i redeg. Y Cyngor yn cadarnhau i symud ymlaen a'r gwaith. Mae'r sgaffald wedi mynd.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
	Cafwyd wybodaeth bod Clwb Peldroed y Felinheli wedi ennill y Cyngrair. Y Clerc i anfon llythyr atynt i longyfarch hwy ar eu llwyddiant ac i ddymuno yn dda iddynt am y tymor newydd.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 20:15	
Llofnod:		**Dyddiad:**

Atodiad – Adroddiad gan y Cynhorydd Nerys John

Llwybr 19

Pnawn da
Dwi di atodi yma hen fap OS 1963 gan fod hwn gennai a'i fod yn dangos y llwybyr drwy coed Llanfair yn dda - cyn i Lon Eifion cael ei greu. Mae'r atodiad "llwybyr19 CoedLlanfair" yn nodi rhywbeth dwi'n meddwl da ni angen sortio efo Cyngor Gwynedd.

Mae gennai gofnod o:
"Statement of Evidence" gan George Smith (cyn-gynghorydd Cymuned) o 2008 yn cadarnhau yn unol a'r "Wildlife and Countryside Act 1981" ei fod wedi cerdded y llwybyr yn flynyddol.

Adroddiad George Smith yn 2016 nodi bod angen cysylltu efo Cyngor Gwynedd oherwydd bod yna arwydd ar giat Y Boathouse yn dweud "Private"

2017 - Adroddiad Arolwg Llwybrau yn nodi bod angen cysylltu efo Cyngor Gwynedd Ynghylch Rhwystr Mnediad a Diffyg Arwyddion.

2019 - Derbyn gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd i ddweud bod lllwybyr 19 wedi ei gau dros dro oherwydd gwaith ffordd pen Plas Menai y llwybyr - nid yw'r gwaith ffordd yn amharu ar Goed Llanfair ac ardal Y Boathouse. Felly - ella buasai Cyngor Gwynedd yn gallu cadarnhau bod modd defnyddio y rhan yma o'r llwybyr.

Y rheswm am gadarnhad o hyn yw i alluogi pysgotwyr lleol i gyrraedd y Fenai y ffordd hyn ac er mwyn i gerddwyr hefyd ei ddefnyddio yn rhwydd.

Ar lefel bersonnol, mi wnes i gerdded o Rowen ar hyd y Fenai tuag at Gaernarfon tra roedd y llanw allan ddydd Sul. Roeddwn i wedi siarad efo cerddwyr eraill yr wythnos cynt a chefais ar ddeall eu bod wedi llwyddo i gerdded ar hyd llwybyr Coed Llanfair o'r Fenai at lon Eifion. Felly, pan ddes i yn ol dydd Sul tua Lan Môr Rowen a ffeindio bod y llanw wedi ein curo (nad oedd modd fynd dim pellach ar hyd ymyl y Fenai), dyma ni yn mynd o'r Fenai am lwybyr Coed Llanfair ochor Rowen o'r Boathouse. Roedd y llwybyr wedi cael ei gerdded yn reolaidd - roedd hyn yn amlwg o'r diffyg tyfiant (llwybyr hyfryd drwy'r coed). Wrth gyrraedd y cae ar gyrrion y goedwig (cyn cyrraedd Lon Eifion) roedd hoel ffens oedd wedi disgyn a ffens newydd wedi ei osod. (Yn ddiweddar iawn) Hyn yn hollol ddealladwy os am gadw anifeiliadi yn y cae. Yr unig broblem oedd nad oedd modd inni fynd dim pellach. Troi yn ol fu ein hanes a gorfod mynd ar y llwybyr heibio y Boathouse. Cawsom sgwrs efo'r perchennog sydd wedi byw yna ers '40 years and there is no public footpath here'. Roedd hi yn glên iawn ac fe roddwyd "ganiatad" inni ddal ymlaen ar lwybyr cyhoeddus 19!!

Felly Y Clerc I gysylltu efo Cyngor Gwynedd i weld os gawn ni gadarnhad:
1. Bod hi yn bosib cerdded y rhan yma o'r llwybyr hyd yn oed tra mae y rhan wrth Plas Menai - Fferm Llanfair wedi ei gau?
2. Bod y Cyngor yn trefnu cael sgwrs efo perchennog y Boathouse a gweld sut mae modd cael arwyddion i fyny a gwneud yn siwr bod cerddwyr yn cadw at y llwybyr tra yn croesi'r tir.
3. Bod y Cyngor yn trefnu cael sgwrs efo perchennog y cae wrth Lon Eifion/ Coed Llanfair a gweld os oes modd cael ffordd trwodd o'r goedwig at Lon Eifion.

Llandair Wood
Llanfair Hall
Fridd y Rails Covert
L L A N F A I R
Cae-rhe-naf Covert
Cae-rhe Covert
Keeper's Lodge
Llandair Wood
Llanfair Hall
Fridd y Rails Covert
L L A N F A I R
Cae-rhe-naf Covert
Cae-rhe Covert
Keeper's Lodge